Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Arweiniad ar addysg ymarfer ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 30 33 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

© Gofal Cymdeithasol Cymru 2019

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylid anfon ymholiadau atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

**Fformatau eraill:**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

# Cynnwys


**Adran 1**

Cyflwyniad....4

Y radd mewn gwaith cymdeithasol....4

Camau dysgu....5

Rôl yr addysgwr ymarfer....5

Goruchwylwyr ar y safle....6

**Adran 2**

Taith y myfyriwr....7

Cyflwyniad a'r cam sylfaen – lefel 1....7

Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol – lefel 2....8

Datblygu a chadarnhau cymhwysedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol – lefel 3....9

**Sylwadau i gloi**....11

**Atodiad 1**

Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2011....12

**Atodiad 2**

Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2016....38

**Atodiad 3**

Adnodd archwilio sgiliau ....43

# Adran 1

## Cyflwyniad

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am sicrhau ansawdd addysg gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn gosod rheolau ar gyfer cymeradwyo, monitro ac adolygu hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Amlinellir y rhain yn *Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol* (2018)[1]. Mae'r rheolau a'r arweiniad cysylltiedig yn gosod y safonau ar gyfer asesu cymhwysedd myfyriwr gwaith cymdeithasol a sut i fynd ati i'w asesu. Daw'r safonau o'r canlynol:

- y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Datganiadau Meincnodi Pwnc yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.*

Rydym wedi datblygu'r canllaw hwn i gynnig rhagor o wybodaeth am y disgwyliadau ar gyfer asesu myfyrwyr yn eu cyfleoedd dysgu ymarfer, a sut mae angen dangos tystiolaeth o'r safonau.

Bydd y canllaw hwn yn helpu i addysgwyr ymarfer gefnogi ac asesu myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Hefyd, mae'n darparu strwythur ar gyfer addysgwyr ymarfer, i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u sgiliau i wneud penderfyniadau am gymhwysedd datblygol y myfyriwr.

Rydym yn defnyddio termau amrywiol mewn addysg gwaith cymdeithasol ac mae'n bosibl bod angen egluro'r rheiny, sef:

- **Rhaglen** – mae hyn yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer darparu hyfforddiant mewn gwaith cymdeithasol. Darperir rhaglen gan bartneriaeth sy'n cynnwys cyflogwyr a phrifysgol, felly pan fydd y canllaw yn cyfeirio at "y rhaglen", mae'n cyfeirio at gyfrifoldeb y bartneriaeth. Os bydd y cyfrifoldeb gan y brifysgol, y partner cyflogwr neu ddarparwr y lleoliad, byddwn yn defnyddio'r termau hynny yn hytrach.
- **Dysgu ymarfer**, a ddefnyddir i ddisgrifio'r hyn y mae'r myfyriwr yn ei ennill o leoliad ymarferol lle y mae'n dysgu am y sgiliau, y wybodaeth a'r gwerthoedd y mae eu hangen gan weithiwr cymdeithasol proffesiynol, ac yn eu hymarfer.
- **Addysgwr ymarfer**, a ddefnyddir i ddisgrifio rôl y gweithiwr cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddysgu ymarfer y myfyriwr. Arferid galw'r rôl hon yn athro ymarfer, goruchwylydd ymarfer neu asesydd ymarfer. Rydym wedi penderfynu defnyddio'r term addysgwr ymarfer i ddal ystod cyfrifoldebau'r rôl am hyrwyddo dysgu, addysgu, asesu a rheoli'r lleoliad ymarfer.

## Y radd mewn gwaith cymdeithasol

Mae'r radd mewn gwaith cymdeithasol yn ddyfarniad academaidd a phroffesiynol. Rhaid i'r addysgu, y dysgu a'r asesu ar gyfer y radd gyfuno theori ac ymarfer, p'un a bod y myfyriwr yn y coleg neu ar eu cyfle dysgu ymarfer.

I basio'r radd, rhaid i fyfyrwyr:

- basio holl elfennau'r gwaith academaidd sy'n cael eu hasesu
- cwblhau pob lefel dysgu academaidd yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r nesaf
- cwblhau pob elfen dysgu ymarfer y rhaglen yn llwyddiannus cyn symud ymlaen i'r nesaf
- pasio o leiaf 200 diwrnod o ddysgu ymarfer sy'n cael ei asesu
- darparu tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer chwe rôl allweddol gwaith cymdeithasol a'r 20 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (2011)
- dangos eu bod yn deall, yn dadansoddi ac yn cymhwyso'n gynyddol y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*

1. *Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru*, 2018

- dangos eu bod yn gallu defnyddio dulliau a thechnegau TGCh i ategu'u dysgu a'u hymarfer, fel y'u diffinnir gan Ddatganiad Meincnodi Pwnc perthnasol y QAA ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (gweler Atodiad 2).

Gall y cymhwyster gwaith cymdeithasol proffesiynol gael ei gwblhau trwy radd gyntaf neu radd feistr. Yr un yw'r safonau cymhwysedd proffesiynol y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu bodloni ar gyfer y ddau lwybr ac mae'n rhaid i'r cwricwlwm academaidd ar gyfer pob rhaglen fodloni safonau penodol.

## Camau dysgu

Dyma'r camau dysgu y mae myfyrwyr yn mynd drwyddynt mewn rhaglen gymhwyso:

- cyflwyniad a sylfaen
- cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
- datblygu a chadarnhau cymhwysedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Caiff ymarfer y myfyriwr ei asesu ym mhob cam o'r radd. Mae gan bartneriaethau rhaglenni rywfaint o hyblygrwydd o ran strwythur y cyfleoedd dysgu ymarfer ac mae rhai rhaglenni'n dewis dwyn y ddau gam cyntaf ynghyd.

Fodd bynnag, rhaid i bob rhaglen sicrhau:

- bod myfyrwyr yn ymgymryd ag un cyfnod o ddysgu ymarfer mewn awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol sy'n para o leiaf 80 diwrnod ac mae'n cynnwys profiad o swyddogaethau gwaith cymdeithasol statudol, gan gynnwys diogelu
- rhaid i'r asesiad o ddysgu ymarfer gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol profiadol a chofrestredig sy'n asesydd cymwys, neu'n hyfforddi i'r perwyl hwnnw
- bod ymarfer y myfyriwr yn cael ei arsylwi a'i asesu ar nifer penodedig o achlysuron
- bod myfyrwyr ac addysgwyr ymarfer yn cyflwyno portffolio o dystiolaeth o ddysgu'r myfyriwr a'r holl ddeunydd ategol, gan gynnwys adroddiad yr addysgwr ymarfer



- bod myfyrwyr ac addysgwyr ymarfer yn talu sylw priodol i natur gyfrinachol y wybodaeth am bobl ag anghenion gofal a chymorth wrth lunio'r portffolio
- bod myfyrwyr ac addysgwyr ymarfer yn cynhyrchu pob gwaith ysgrifenedig i safon broffesiynol. Rhaid cyflwyno'r portffolio mewn modd boddhaol o ran sillafu a gramadeg, a rhaid i'r ysgrifennu fod yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Anogir myfyrwyr yn gryf i gadw cymaint o dystiolaeth â phosibl ar ffurf electronig
- bod myfyrwyr yn bodloni'r safonau a ddisgrifir yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol erbyn diwedd y rhaglen.

## Rôl yr addysgwr ymarfer

Mae gan yr addysgwr ymarfer rôl hollbwysig mewn addysg gwaith cymdeithasol. Mae'r rôl yn cynnwys annog dysgu, addysgu, asesu a rheoli. Felly, rhaid i addysgwyr ymarfer fod yn gyfarwydd ag egwyddorion ac ymarfer dysgu oedolion.

Dylai addysgwyr ymarfer sicrhau eu bod:

- yn gyfarwydd â'r safonau addysg ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol
- yn gyfarwydd â'r rhaglen benodol y mae'r myfyriwr yn ei hastudio
- yn rhannu'u gwybodaeth a'u sgiliau gyda'r myfyriwr i'w helpu i ymarfer yn unol â'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol

- yn gyfrifol am y gwaith a neilltuir i'r myfyriwr a'i fod yn briodol i'w anghenion dysgu a'i gam hyfforddi

- yn cynnig goruchwyliaeth broffesiynol a datblygiadol rheolaidd, gan gynnwys adborth gwerthusol ar bob agwedd ar waith y myfyriwr

- yn arsylwi ymarfer y myfyriwr

- yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, ac yn cwblhau adroddiadau asesu a gwerthuso, yn unol â gofynion y rhaglen

- yn cefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu addysgol, fel y'u nodir yng nghytundeb y cyfle dysgu ymarfer/y cytundeb cynnal.

## Goruchwylwyr ar y safle

Os nad yw'r addysgwr ymarfer yn gweithio yn yr un tîm â'r myfyriwr, bydd yr asiantaeth gynnal yn trefnu bod gan y myfyriwr oruchwylydd ar y safle. Yr addysgwr ymarfer o hyd fydd yn gyfrifol am oruchwylio ac asesu'r myfyriwr yn gyffredinol, gan ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth gan y goruchwylydd ar y safle.

Bydd angen paratoi'r goruchwylydd ar y safle yn briodol ar gyfer y rôl. Rhaid i'r rhaglen wneud yn siŵr bod y goruchwylydd ar y safle yn gyfarwydd, o leiaf, â gofynion y rhaglen, ei rolau a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cyfrannu at ddatblygiad y myfyriwr.

Bydd pob rhaglen yn rhoi llawlyfr dysgu ymarfer i'r addysgwyr ymarfer a'r goruchwylwyr ar y safle, yn cynnwys rhagor o wybodaeth am eu rôl a'r disgwyliadau ohonynt.



2. Addaswyd yr adran hon o lawlyfr y rhaglen ar gyfer yr MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Rydym yn ddiolchgar i'r rhaglen am ganiatáu i ni ddefnyddio'r deunydd hwn.

Dylai goruchwylydd ar y safle[2]:

- wneud yn siŵr bod y myfyriwr yn cael ei gyflwyno i aelodau staff eraill yn yr asiantaeth, a'i integreiddio â nhw

- cynllunio a rhoi cyflwyniad i'r myfyriwr ar yr asiantaeth, gan gynnwys dogfennau perthnasol am ymarfer, polisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth

- nodi gwaith addas i'r myfyriwr ei gyflawni mewn ymgynghoriad â'r addysgwr ymarfer. Bydd y gwaith hwn yn galluogi'r myfyriwr i ddangos y dystiolaeth y mae ei hangen i fodloni'r safonau a'r ymarfer gofynnol ar gyfer lefel astudio benodol y myfyriwr

- arfer cyfrifoldeb am reoli a goruchwylio'r myfyriwr o ddydd i ddydd

- mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda'r addysgwr ymarfer a'r myfyriwr

- cyfrannu at werthuso'r myfyriwr yn barhaus. Bydd yr addysgwr ymarfer yn ymgynghori â'r goruchwylydd ar y safle ynghylch cynnydd y myfyriwr yn y lleoliad

- meddu ar wybodaeth sylfaenol am y rhaglen gymhwyso a'r trefniadau asesu ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Mae'n bwysig bod y goruchwylydd ar y safle:

- yn rhan o gyfarfod y cytundeb dysgu ymarfer er mwyn cytuno ar ddisgwyliadau a gofynion y lleoliad

- yn mynychu'n rheolaidd sesiynau goruchwylio'r myfyriwr gyda'i addysgwr ymarfer, er mwyn rhoi adborth ar gynnydd y myfyriwr a thrafod unrhyw faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw

- yn gwneud yn siŵr bod yr addysgwr ymarfer yn cytuno ar y gwaith a neilltuir i'r myfyriwr, bod modd ymdopi â'r gwaith o ran ei gymhlethdod a'r nifer, a'i fod yn bodloni'r canlyniadau dysgu gofynnol. Bydd yr addysgwr ymarfer yn gallu rhoi arweiniad i'r goruchwylydd ar y safle ar y math o waith a lefel y gwaith sy'n ofynnol.

# Adran 2

Mae trefniadau rhaglenni ar gyfer dysgu ymarfer yn amrywio. Felly, mae'n rhaid iddynt lunio llawlyfr dysgu ymarfer sy'n disgrifio trefniadau a gofynion cyfleoedd dysgu ymarfer ar gyfer pob cam o'r cymhwyster.

Mae'r llawlyfr yn amlinellu'r camau dysgu yn y radd mewn gwaith cymdeithasol. Ar gyfer pob cam, mae'n disgrifio:

- ffocws y dysgu
- beth mae'n rhaid i fyfyrwyr ei ddangos
- y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau asesu
- unrhyw ofynion penodol o ran asesu neu gasglu tystiolaeth.

## Taith y myfyriwr

Dyma dri cham y rhaglen gymhwyso:

- cyflwyniad a sylfaen
- cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
- datblygu a chadarnhau cymhwysedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Erbyn diwedd y rhaglen, mae disgwyl i fyfyrwyr feddu ar lefel y cymhwysedd sy'n ofynnol i gyflawni chwe rôl allweddol gweithwyr cymdeithasol, fel y'i diffinnir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2011. Dylai'r wybodaeth a'r sgiliau a ddisgrifir yn y safonau ac yn y Datganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (gweler yr Atodiadau) fod yn sail i'r cymhwysedd hwn.

Mae gan bob un o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol feini prawf perfformiad. Defnyddir y rhain i helpu'r myfyriwr a'r addysgwr ymarfer i ddeall y gofyniad. Nid oes disgwyl y bydd yr holl feini prawf yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, dylai addysgwyr ymarfer ystyried unrhyw dystiolaeth nad yw myfyriwr yn bodloni'r meini prawf wrth iddynt wneud penderfyniadau asesu.

## Cyflwyniad a'r cam sylfaen – lefel 1

Mae cam cyntaf y cymhwyster mewn gwaith cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth eang o rôl gweithwyr cymdeithasol a'r cysyniadau hanfodol y mae eu hangen i ymarfer yn effeithiol. Bydd myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, ac yn archwilio sut mae eu sylfaen gwerthoedd yn effeithio ar ansawdd eu hymarfer gwaith cymdeithasol.

Yn dibynnu ar y trefniadau ym mhob rhaglen, bydd myfyrwyr yn ennill dealltwriaeth o:

- y fframwaith deddfwriaethol a pholisi bras ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yng Nghymru
- y sgiliau allweddol y mae eu hangen ar weithwyr cymdeithasol proffesiynol
- effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'u gofalwyr
- trefn a strwythur gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol
- ymchwil sy'n berthnasol i'w cyfle dysgu ymarfer.

Yn ystod y cam hwn, caiff potensial myfyrwyr i ddatblygu ymhellach ei asesu.

Dylai addysgwyr ymarfer hwyluso dysgu ymarfer sy'n helpu'r myfyriwr i ennill dealltwriaeth o rôl gweithwyr cymdeithasol, eu cyfrifoldebau a'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sy'n ofynnol. Dylid rhoi gwaith i fyfyrwyr sy'n adlewyrchu'u hanghenion dysgu ac sy'n ategu'u dysgu academaidd. Bydd gan



fyfyrwyr brofiad perthnasol o'r cyfnod cyn iddynt ymuno â'r cwrs, felly dylai'r gwaith a roddir iddynt gynrychioli her briodol ond gael ei gefnogi'n dda hefyd. Rhaid i fyfyrwyr gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr. Dylid cynllunio cyfleoedd o'r fath yn dda a'u goruchwylio'n briodol. Nid yw hyn yn lleoliad sy'n cael ei arsylwi.

Disgwylir i fyfyrwyr ddangos:

- cymhwysedd sy'n dod i'r amlwg yn chwe rôl allweddol gwaith cymdeithasol fel y'u diffinnir gan y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol ynghyd â dealltwriaeth ohonynt, a'r wybodaeth a'r medrau y mae ar y rhain eu hangen
- y sgiliau a'r gwerthoedd rhyngbersonol sy'n ofynnol i fod yn addas ac yn ddiogel i weithio gyda phobl ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr
- dealltwriaeth o effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr. Dylid ennill y ddealltwriaeth hon yn uniongyrchol oddi wrth bobl ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr
- eu bod wedi deall a chymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn eu hymarfer, eu hymddygiad a'u gwaith academaidd.



3. Yn seiliedig ar y Datganiadau Meincnodi Pwnc ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2016
4. Ibid t.17
5. Gweler atodiad 2

## Cymhwyso gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol – lefel 2

Ar y lefel hon, bydd myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad, a'u cymhwyso nhw yn eu hymarfer.

Byddant yn cwmpasu:

- y pum maes gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y pwnc[3]:
  - theori gwaith cymdeithasol
  - gwerthoedd a moeseg
  - pobl ag anghenion gofal a chymorth, a gofalwyr ag anghenion cymorth
  - natur ymarfer gwaith cymdeithasol
  - arweinyddiaeth, trefniadaeth a darpariaeth gwasanaethau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol
- y pump sgil penodol i bwnc a sgiliau eraill[4]:
  - datrys problemau
  - cyfathrebu
  - gweithio gydag eraill
  - datblygiad personol a phroffesiynol
  - defnydd o dechnoleg a rhifedd[5].

Erbyn diwedd y ddau gam dysgu ymarfer hyn, dylai myfyrwyr fod yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u gwerthoedd gwaith cymdeithasol, gan gynnwys canfyddiadau ymchwil, yn eu hymarfer. Hefyd, bydd angen iddynt ddangos eu bod yn datblygu ymarfer beirniadol, dadansoddol a myfyriol.

Wrth wneud penderfyniad am gymhwysedd myfyriwr, bydd addysgwyr ymarfer yn asesu myfyrwyr ar sail:

- y dystiolaeth y mae ei hangen ar gyfer pob un o'r 20 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

ar gyfer Gwaith Cymdeithasol. Ar gyfer pob safon, bydd angen i addysgwyr ymarfer ystyried unrhyw wrthdystiolaeth hefyd

- tystiolaeth bod y myfyriwr wedi dadansoddi a gwerthuso sut mae'n cymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn ei ymarfer, ei ymddygiad a'i waith academaidd.

Mae'r meini prawf perfformiad yn disgrifio ffyrdd o ddangos tystiolaeth o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yna gall hyn gael ei ddefnyddio i lywio'r asesiad.

Rhaid arsylwi gwaith y myfyriwr gyda phobl sydd angen gofal neu gefnogaeth yn uniongyrchol ar o leiaf pum achlysur. Rhaid i'r addysgwr ymarfer gynnal o leiaf dri o'r arsylwadau hyn; gall y gweddill gael eu cyflawni gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig arall.

Ar gyfer pob un o'r arsylwadau, dylai'r sawl sy'n arsylwi ofyn am adborth ar ymarfer y myfyriwr. Mae angen o leiaf dri darn o adborth.

Bydd yr asesiad o ymarfer y myfyriwr ar ddiwedd y ddau gam hyn yn cynnwys:

- o leiaf 100 diwrnod o ddysgu ymarfer wedi'i asesu, mewn dim mwy na dau gyfle dysgu ymarfer
- dadansoddiad a gwerthusiad y myfyriwr o sut mae'n cymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* drwy:
  - y ffordd mae'n mynd ati i ddatblygu'n broffesiynol ac yn academaidd
  - ei ymddygiad
  - gwaith wedi'i asesu
  - dysgu ymarfer
- dangos dealltwriaeth o chwe rôl allweddol gwaith cymdeithasol, fel y'u diffinnir gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, a'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen ar y rhain
- y potensial i ddatblygu ymhellach.

## Datblygu a chadarnhau cymhwysedd mewn ymarfer gwaith cymdeithasol – lefel 3

Trwy adeiladu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd a gafwyd yn y ddau gam blaenorol, dylai myfyrwyr ar y lefel hon fod yn dangos crebwyll proffesiynol, ymyrraeth a myfyrdod beirniadol yn eu hymarfer.

Mae disgwyl i fyfyrwyr ddangos:

- eu bod yn gallu cymhwyso egwyddorion polisi cymdeithasol a fframwaith deddfwriaethol Cymru yn eu hymarfer
- eu bod yn gallu gwneud defnydd priodol o ymchwil yn eu penderfyniadau a'u crebwyll proffesiynol am ymarfer ac wrth werthuso canlyniadau
- crebwyll proffesiynol, ymyrraeth a myfyrdod beirniadol.

Wrth wneud penderfyniad am gymhwysedd y myfyriwr, bydd addysgwyr ymarfer yn asesu'r myfyrwyr ar sail:

- o leiaf 80 diwrnod o ddysgu ymarfer wedi'i asesu, mewn un cyfle dysgu ymarfer
- y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r 20 o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol ar y lefel hon. Ar gyfer pob safon, bydd angen i addysgwyr ymarfer ystyried unrhyw wrthdystiolaeth hefyd
- tystiolaeth bod y myfyriwr wedi integreiddio'n llawn a dadansoddi'n feirniadol sut mae'n cymhwyso'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* drwy:
  - y ffordd y mae'n mynd ati i ddatblygu'n broffesiynol ac yn academaidd
  - ei ymddygiad
  - gwaith wedi'i asesu
  - dysgu ymarfer.

Mae'r meini prawf perfformiad yn disgrifio ffyrdd o ddangos tystiolaeth o Safonau Galwedigaethol

Cenedlaethol a gall hyn gael ei ddefnyddio i lywio'r asesiad.

Rhaid arsylwi gwaith y myfyriwr gyda phobl angen gofal a chefnogaeth yn uniongyrchol ar o leiaf pum achlysur. Rhaid i'r addysgwr ymarfer gynnal o leiaf bedwar o'r arsylwadau hyn; gall y llall gael ei gyflawni gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig gwahanol.

Ar gyfer pob un o'r arsylwadau, dylai'r sawl sy'n arsylwi ofyn am adborth ar ymarfer y myfyriwr gan yr unigolyn y mae'r myfyriwr wedi bod yn gweithio gyda. Mae angen o leiaf dri darn o adborth.

# Sylwadau i gloi

Mae bod yn addysgwr ymarfer yn rôl feichus. Mae'n manteisio ar lawer o sgiliau gwaith cymdeithasol, fel cyfathrebu, trafod, casglu a dadansoddi gwybodaeth, gosod targedau a gweithio yn unol â nhw, rheoli, galluogi pobl eraill ac ysgrifennu adroddiadau. Mae'n cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae'n cynnig tystiolaeth ragorol o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru[6].

Mae gan addysgwyr ymarfer ran bwysig i'w chwarae yn paratoi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol. Mae'n rhan allweddol o fod yn weithiwr cymdeithasol proffesiynol. Mae'r canllawiau ymarfer *Gweithiwr Cymdeithasol* yn datgan:

> **mae gan bob gweithiwr cymdeithasol gyfrifoldeb i helpu eraill i ddysgu a datblygu, gan gynnwys hyfforddi gweithwyr gwaith cymdeithasol proffesiynol y dyfodol[7].**

Wrth hwyluso cyfleoedd dysgu ymarfer o ansawdd uchel, mae addysgwyr ymarfer yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y mwyaf o'u dysgu hymarfer, gan helpu iddynt gynyddu'u gwybodaeth a'u sgiliau i ddatblygu'n weithwyr cymdeithasol proffesiynol, cymwys a hyderus.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol sy'n fyfyrwyr ac rydym yn cydnabod eich cyfraniad gwerthfawr at helpu i lywio gweithlu gofal cymdeithasol y dyfodol.

6. Adnewyddu eich cofrestriad – Gofal Cymdeithasol Cymru
7. *Y Gweithiwr Cymdeithasol – Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru*, 2017

# Atodiad 1

Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2011

Sylwch, y dyfyniadau canlynol yw safonau a meini prawf y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn unig. Cewch y safonau llawn ar ein gwefan yn:

gofalcymdeithasol.cymru

# Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol: rolau allweddol

| **Rôl allweddol 1** | **Cynnal atebolrwydd proffesiynol** |
|---|---|
| SW1 | Cynnal gwybodaeth a sail dystiolaeth gyfredol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol |
| SW2 | Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol drwy oruchwylio a myfyrio |
| | |
| **Rôl allweddol 2** | **Ymarfer gwaith cymdeithasol proffesiynol** |
| SW3 | Rheoli'ch rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol |
| SW4 | Arfer crebwyll proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol |
| SW5 | Rheoli materion, cyfyng-gyngor a gwrthdaro moesegol |
| SW6 | Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol |
| SW7 | Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol ar bobl |
| | |
| **Rôl allweddol 3** | **Hyrwyddo ymgysylltiad a chyfranogiad** |
| SW8 | Paratoi ar gyfer ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| SW9 | Ymgysylltu pobl ag ymarfer gwaith cymdeithasol |
| SW10 | Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu |
| SW11 | Eirioli ar ran pobl |
| | |
| **Rôl allweddol 4** | **Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau** |
| SW12 | Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r bobl sydd ynghlwm |
| SW13 | Ymchwilio i niwed neu gam-drin |
| | |
| **Rôl allweddol 5** | **Cynllunio ar gyfer canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** |
| SW14 | Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy |
| SW15 | Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i annog annibyniaeth a chyfrifoldeb |
| SW16 | Cytuno ar gynlluniau lle y mae risg niwed neu gam-drin |
| | |
| **Rôl allweddol 6** | **Cymryd camau i gyflawni newid** |
| SW17 | Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i annog newid |
| SW18 | Cael at adnoddau i gefnogi atebion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
| SW19 | Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol |
| SW20 | Datgysylltu ar ddiwedd ymglymiad gwaith cymdeithasol |

Cynnal cronfa wybodaeth a thystiolaeth ddiweddar ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn broffesiynol, rhaid i weithwyr cymdeithasol baratoi eu hunain â chorff o wybodaeth a thystiolaeth sy'n defnyddio llenyddiaeth academaidd, ymchwil, dealltwriaeth leol a deddfwriaeth genedlaethol yn ymwneud â'r maes gweithgarwch. Mae'r safon hon yn pennu ymagwedd gynlluniedig tuag at astudio ac ymchwil barhaus a fydd yn helpu i sicrhau ymarfer gwaith cymdeithasol sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth ac sy'n gyfreithiol gadarn. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | sefydlu eich strategaeth eich hun ar gyfer cynnal cronfa wybodaeth a thystiolaeth ddiweddar ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol |
| | **P2** | ymchwilio gofynion statudol, cyfreithiol a threfniadol, a llenyddiaeth academaidd sy'n ymwneud ag ymarfer gwaith cymdeithasol |
| | **P3** | dadansoddi'r pwerau statudol ac anstatudol a ddefnyddir gan weithwyr cymdeithasol a sefydliadau |
| | **P4** | adolygu canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol blaenorol ar gyfer unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau yn lleol |
| | **P5** | adolygu eich gwybodaeth eich hun ynglŷn â materion neu gydraddoldeb, tegwch, mynediad ac ymarfer a darpariaeth wrthwahaniaethol |
| | **P6** | cyfosod gwybodaeth i ddeall sut y mae ymarfer ar sail tystiolaeth yn berthnasol i'ch rôl eich hun |
| | **P7** | cynllunio, gyda chymorth, sut i integreiddio ymchwil bresennol ac ymchwil sy'n datblygu i'ch ymarfer eich hun |



# SCDSW2

Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae llinynnau dwbl goruchwyliaeth broffesiynol a myfyrio personol yn hanfodol ar gyfer datblygu ymarfer, a rhaid i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio'r ddwy ohonynt yn effeithiol. Yn eu tro, rhaid i'r rhain gael eu llywio gan adborth gan eraill a'u hategu â chymorth llai ffurfiol, pan fo hynny'n ddefnyddiol neu'n angenrheidiol. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn ac yn sicrhau y caiff dysgu newydd ei integreiddio mewn ymarfer, er mwyn gwella ymarfer unigol a chyfrannu at ddatblygu'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | ceisio **goruchwyliaeth broffesiynol** i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol |
| | **P2** | paratoi ar gyfer **goruchwyliaeth broffesiynol** ffurfiol mewn ffyrdd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar ei effeithiolrwydd |
| | **P3** | manteisio ar ffynonellau ychwanegol o gymorth sy'n gydnaws ag egwyddorion gwaith cymdeithasol proffesiynol |
| | **P4** | defnyddio adborth o oruchwyliaeth a **ffynonellau eraill** i lywio myfyrio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol a'i werthuso |
| | **P5** | myfyrio ar y cyd-destun diwylliannol yr ydych yn ymarfer ynddo a sut mae hyn yn effeithio ar eich gwaith |
| | **P6** | myfyrio ar eich gwerthoedd, credoau a'ch rhagdybiaethau eich hun, a sut maent yn effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol |
| | **P7** | integreiddio dysgu o fewn ymarfer |
| | **P8** | cyfrannu eich gwybodaeth eich hun ynglŷn ag arfer gorau at ddatblygiad parhaus y proffesiwn |



# SCDSW3

Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwaith cymdeithasol yn gofyn llawer, nid yn unig ar wybodaeth a sgiliau proffesiynol gweithwyr cymdeithasol, ond ar eu gallu personol hefyd. Gall y gwaith effeithio ar eu lles personol, boed hynny'n gorfforol neu'n emosiynol. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r angen am gynllunio ymwybodol ynghylch sut i fanteisio i'r eithaf ar amser, egni ac arbenigedd, y ffordd orau i gadw'n ddiogel mewn sefyllfaoedd sydd â risg, a sut i reoli'r rôl gwaith cymdeithasol yn ei chyd-destunau a'i chyfyngiadau amrywiol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | gweithio o fewn cyd-destun eich sefydliad eich hun |
| | **P2** | pennu paramedrau eich rôl gwaith eich hun a sut y mae cyfrifoldebau pobl eraill yn cysylltu â'r rhain |
| | **P3** | sicrhau eich bod yn deall y prosesau y gallech fod ynghlwm wrthynt |
| | **P4** | cynllunio, gyda chymorth, sut i flaenoriaethu gwaith er mwyn defnyddio'ch amser yn effeithiol |
| | **P5** | cymryd camau i sicrhau eich diogelwch mewn sefyllfaoedd lle mae risg o niwed i chi |
| | **P6** | cydnabod yr effaith y gall sefyllfaoedd gwaith eu cael ar eich lles a'ch ymarfer |
| | **P7** | gweithredu strategaethau i ddatblygu eich gwydnwch personol a phroffesiynol |
| | **P8** | herio eich rhagdybiaethau eich hun a all arwain at wahaniaethu yn eich ymarfer |
| | **P9** | myfyrio ar y ffordd rydych yn rheoli eich rôl, er mwyn sicrhau datblygiad parhaus a chofrestriad proffesiynol parhaus |

# SCDSW4

Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol y mae'r angen i lunio barn a fydd yn effeithio ar fywydau pobl eraill, mewn amgylchiadau heriol neu ag effeithiau eithafol ambell waith. Rhaid llunio barn broffesiynol, hyd yn oed wrth weithio mewn modd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wrth gydweithio'n agos â phobl eraill. Mae'r safon hon yn mynegi fel mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol gynnwys dadansoddiad trylwyr ac ystyrlon o wybodaeth a'i goblygiadau yn y broses benderfynu, gan arwain at farn y gellir ei mynnu'n hyderus er mwyn sicrhau budd pennaf y rhai dan sylw. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | dadansoddi ystod o wybodaeth a fydd yn llywio penderfyniadau proffesiynol am sefyllfaoedd cymhleth, penodol |
| | **P2** | datblygu amrywiaeth o ddewisiadau i fynd i'r afael â'r sefyllfa |
| | **P3** | gwerthuso goblygiadau dewisiadau gwahanol ar gyfer y bobl dan sylw |
| | **P4** | ymarfer barn broffesiynol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth |
| | **P5** | cyflwyno ar lafar ac yn ysgrifenedig, y rhesymwaith dros eich barn broffesiynol |
| | **P6** | cyfiawnhau eich barn broffesiynol lle mae pobl eraill yn anghytuno â hi neu'n ei herio |
| | **P7** | herio barn pobl eraill sydd i'w gweld yn gwrthdaro â'r dystiolaeth neu'n gweithio yn erbyn budd pennaf pobl |
| | **P8** | ystyried yr angen i addasu eich barn eich hun lle cyflwynir tystiolaeth newydd |

# SCDSW5

Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'r sefyllfaoedd cymhleth y mae gweithwyr cymdeithasol yn aml yn eu wynebu yn peri problemau, penblethau a gwrthdaro sydd â dimensiwn moesegol cryf. Gall y rhain godi o densiynau rhwng hawliau a chyfrifoldebau, rhwng risg ac amddiffyn, rhwng anghenion wedi'u hasesu a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â chylch ymchwil, myfyrio, gweithredu a dysgu yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau moesegol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | cydnabod materion moesegol, penblethau a gwrthdaro sy'n codi wrth ymarfer gwaith cymdeithasol |
| | **P2** | adolygu ffynonellau gwybodaeth a all lywio barn broffesiynol ynghylch materion moesegol, penblethau a gwrthdaro |
| | **P3** | myfyrio ar sut y gall eich gwerthoedd a'ch profiadau eich hun effeithio ar reoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro |
| | **P4** | llunio barn broffesiynol gan ystyried materion moesegol, penblethau a gwrthdaro |
| | **P5** | cynorthwyo eraill i ddeall sut y gall ystyriaethau moesegol fod wedi effeithio ar benderfyniadau a wnaed |
| | **P6** | gwerthuso canlyniadau'r modd rydych wedi rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro i lywio eich ymarfer yn y dyfodol |

# SCDSW6

Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwaith amlddisgyblaethol effeithiol yn rhan hanfodol o waith cymdeithasol: rhaid rhannu'r wybodaeth sy'n hysbys i asiantaethau gwahanol er mwyn adnabod y rhai sydd mewn perygl, rhaid cydlynu sgiliau proffesiynau gwahanol i fod o fudd i'r rhai ag anghenion cymhleth, a rhaid cydgyfrannu adnoddau asiantaethau gwahanol i fwyhau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael ag elfennau gwaith amlddisgyblaethol wrth gynnal rôl a chyfraniad nodedig y gweithiwr cymdeithasol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | datblygu perthnasoedd cydweithio â gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill |
| | **P2** | cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol wrth weithio mewn cyd-destun amlddisgyblaethol |
| | **P3** | datblygu eich dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau pobl eraill sy'n cyfrannu at waith amlddisgyblaethol |
| | **P4** | sicrhau bod egwyddorion, codau ymarfer a gwerthoedd gwaith cymdeithasol yn cael eu cymhwyso wrth weithio gyda phobl eraill |
| | **P5** | cyfrannu at amlygu a chytuno ar nodau ac amcanion y gwaith amlddisgyblaethol |
| | **P6** | trafod cyfrifoldebau sy'n parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol |
| | **P7** | trafod cytundebau ar systemau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth sy'n cyfrannu at ddiogelu unigolion a'r gymuned ehangach a'u lles |
| | **P8** | cymhwyso gwybodaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol i fynd i'r afael ag anghytundebau a gwrthdaro o fewn perthnasoedd amlddisgyblaethol mewn modd adeiladol |
| | **P9** | cyfrannu at werthuso effeithiolrwydd y gwaith amlddisgyblaethol |



# SCDSW7

Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, a phobl eraill y mae eu gwaith yn cynnwys paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol mewn cyddestunau tebyg. Rhaid i adroddiadau a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau am fywydau pobl fod yn gywir, yn onest, cael eu cyflwyno'n gymhellol a'u lledaenu mewn modd cyfrifol. Mae technoleg gwybodaeth yn cynnig ffyrdd newydd ac effeithiol i gyflwyno a rhannu gwybodaeth. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r ymarferion ar gyfer ysgrifennu adroddiadau o ansawdd uchel, cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol, sefydliadol a moesegol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig i lunio adroddiadau proffesiynol sy'n ddadansoddol a chydlynol |
| | **P2** | cynnal cofnodion cywir, cyflawn, adferadwy a diweddar |
| | **P3** | sicrhau bod y rhai sydd â hawl i weld adroddiadau a chofnodion yn gallu eu deall |
| | **P4** | defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sy'n cynorthwyo i gyfnewid gwybodaeth o fewn ac ar draws disgyblaethau a sefydliadau |
| | **P5** | sicrhau bod cofnodion ac adroddiadau'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol, gan gydbwyso'r tensiwn rhwng diogelu, cyfrinachedd a diogelu data |



# SCDSW8


Paratoi ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Gall gwaith paratoi annigonol cyn cysylltiad cyntaf gwaith cymdeithasol fod yn amharchus, yn ffynhonnell o rwystredigaeth a gall fod yn beryglus. Rhaid cydbwyso'r angen i fod yn gwbl barod ag eangfrydedd sy'n osgoi rhagdybiaethau ac yn cydnabod yr arbenigedd sydd gan bobl ynghylch eu sefyllfaoedd eu hunain, a all fod wedi'i gipio yn y wybodaeth bresennol neu beidio. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r ffordd orau i gasglu gwybodaeth amrywiol (hyd yn oed os yw'n anghyflawn) a'i defnyddio i gynllunio'r dechrau gorau ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | egluro manylion yr **atgyfeiriad** ac unrhyw risgiau cysylltiedig |
| | **P2** | ymgysylltu'n briodol ag **eraill** i gael gwybodaeth ychwanegol |
| | **P3** | ymchwilio i ofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol sy'n effeithio ar yr ymgysylltiad arfaethedig |
| | **P4** | ymchwilio i wybodaeth bellach a all lywio eich ymgysylltiad cychwynnol |
| | **P5** | myfyrio ar agweddau arnoch chi'ch hun a all effeithio ar y berthynas gwaith cymdeithasol |
| | **P6** | **cyfosod** yr holl wybodaeth a gasglwyd |
| | **P7** | llunio barn broffesiynol â chymorth pobl eraill ar y math orau o ymgysylltiad cychwynnol |

# SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynnwys pobl mewn archwilio a mynd i'r afael â'u hamgylchiadau eu hunain yn rhan hanfodol o ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n ymblethu drwy bob agwedd arall ar y rôl. Mae'n gofyn i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio eu sgiliau a'u rhinweddau eu hunain i feithrin a chynnal ymgysylltiad, weithiau pan fyddant yn wynebu amharodrwydd neu wrthwynebiad. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â safle canolog cyfathrebu a chreadigrwydd yn y cyd-destun hwn ac yn cydnabod potensial pobl i ddefnyddio eu dyfeisgarwch eu hunain i sicrhau newid. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol |
| | **P2** | defnyddio sgiliau cyfathrebu i feithrin y berthynas gwaith cymdeithasol |
| | **P3** | cynorthwyo pobl i ddarganfod ffyrdd effeithiol i gyfleu eu barn, eu hanghenion a'u hoffterau |
| | **P4** | datblygu dealltwriaeth pobl eraill o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau chi a rhai'r sefydliad |
| | **P5** | cynorthwyo pobl i archwilio eu hamgylchiadau eu hunain, eu rhwydweithiau presennol ac adnoddau eraill sydd ar gael iddynt |
| | **P6** | annog pobl i gymryd rhan mewn darganfod ffyrdd creadigol i sicrhau newid |
| | **P7** | cydweithio â phobl eraill i fynd i'r afael ag unrhyw elyniaeth neu wrthwynebiad a wynebir |
| | **P8** | arfarnu effaith eich hun o ran cynnal ymgysylltiad a gweithio mewn partneriaeth |
| | **P9** | ceisio adborth gan bobl ar ba mor effeithiol y bu eich ymgysylltiad â nhw |
| | **P10** | addasu'r ffordd rydych yn datblygu ac yn cynnal ymgysylltiad yn dilyn myfyrio ac adborth |



# SCDSW10

Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau a phobl eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg. Yn aml, mae prosesau penderfynu sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol neu gyd-destunau tebyg yn gymhleth a gallant fod yn hynod anodd i'r rhai sy'n gysylltiedig â nhw. Mae cynorthwyo pobl i gymryd rhan yn bwysig yn y bôn, a gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd er mwyn galluogi pobl i fynegi eu barn yn hytrach na rhywun yn ei mynegi drostynt yn ddiangen. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r broses o gynorthwyo cyfranogiad, o asesu gallu pobl i siarad drostynt eu hunain i gadarnhau eu dealltwriaeth o ganlyniadau eu cyfranogiad. Mae'n cydnabod bod rhaid i gymorth ar gyfer cyfranogiad gynnwys herio rhwystrau a gwahaniaethu yn ogystal â meithrin gallu pobl i eirioli drostynt eu hunain. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | asesu gallu pobl i lywio systemau a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed |
| | **P2** | cytuno ar lefel a natur **eich cyfraniad eich hun** o ran cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn **prosesau penderfynu** |
| | **P3** | sicrhau bod llenyddiaeth a dogfennau ar gael i bobl yn y fformat a'r iaith sydd orau ganddynt |
| | **P4** | cynorthwyo **pobl** i ddeall cysyniadau grym a grymuso mewn sefyllfaoedd gwahanol |
| | **P5** | esbonio prosesau a gweithdrefnau er mwyn galluogi pobl i gymryd rhan mor gyflawn â phosibl |
| | **P6** | cydweithio â **phobl** i feithrin eu **gallu** i eirioli drostynt eu hunain |
| | **P7** | cyflawni eich rôl gytûn i gynorthwyo cyfranogiad mewn **prosesau penderfynu** |
| | **P8** | cadarnhau dealltwriaeth **pobl** o ganlyniadau eu cyfranogiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed |
| | **P9** | amlygu unrhyw ragfarn a gwahaniaethu a wynebir |
| | **P10** | hybu cyfiawnder cymdeithasol trwy herio **systemau neu brosesau** sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan |
| | **P11** | adolygu effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir |

# SCDSW11

Eirioli ar ran pobl eraill

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau a phobl eraill sy'n gweithio mewn cyd-destunau tebyg. Mewn sefyllfa benodol neu dros gyfnod hir o amser, gall fod yn angenrheidiol cynrychioli barn, anghenion neu ddymuniadau pobl pan nad ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny eu hunain. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r hyn sydd ynghlwm wrth eirioli ar ran pobl eraill, gan gynnwys yr angen i ystyried gwrthdaro buddiannau, amlhau cyfranogiad trwy gydweithio'n agos â'ch gilydd trwy'r broses gyfan a sicrhau eu bod yn deall canlyniadau eiriolaeth yn llawn. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | darganfod a yw pobl angen i chi eirioli ar eu rhan mewn sefyllfaoedd penodol |
| | **P2** | egluro canlyniadau dymunol yr eiriolaeth a chanlyniadau posibl eraill |
| | **P3** | cynorthwyo pobl i gymryd rhan hyd eithaf eu gallu |
| | **P4** | llunio barn broffesiynol ynghylch unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a all godi os byddwch yn gweithredu fel eiriolwr |
| | **P5** | cydweithio â phobl i baratoi achos sy'n cynrychioli eu budd pennaf |
| | **P6** | cyflwyno sylwadau i gyflawni'r canlyniadau dymunol |
| | **P7** | cyfleu canlyniadau'r eiriolaeth mewn ffyrdd y gellir eu deall |
| | **P8** | adolygu effeithiolrwydd eiriolaeth |

# SCDSW12

Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae asesu'n weithgaredd proffesiynol nodedig o fewn gwaith cymdeithasol. Mae asesiad cywir a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn helpu i sicrhau y bydd unrhyw ymglymiad gwaith cymdeithasol dilynol wir yn gweddu bywydau ac amgylchiadau pobl, ac ni all cynllunio ddechrau nes i'r asesiad gael ei gwblhau. Mae asesu risg yn un o nodweddion pwysig y broses (er nad yr unig un) a gall tensiwn godi rhwng hawliau a chyfrifoldebau mewn perthynas â hyn. Mae'r safon hon yn cydnabod bod pobl yn arbenigwyr ynghylch eu bywydau eu hunain a bod gan wybodaeth a gedwir gan eraill, gan gynnwys rhai mewn asiantaethau neu ddisgyblaethau eraill, ran hanfodol i'w chwarae hefyd mewn adeiladu asesiad cyfannol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | gwrando ar hanes **pobl** eu hunain o'u sefyllfa |
| | **P2** | gweithio'n gyfannol gyda phobl i'w galluogi i amlygu, egluro a mynegi eu cryfderau, **anghenion** a'u disgwyliadau |
| | **P3** | amlygu rhwystrau sy'n creu cyfyngiadau ar bobl |
| | **P4** | cynorthwyo pobl i amlygu'r hyn fyddai'n eu helpu i adeiladu ar eu cryfderau, eu galluoedd a'u cyflawniadau eu hunain |
| | **P5** | gweithio gydag eraill i gasglu rhagor o wybodaeth sy'n berthnasol i'r asesiad |
| | **P6** | gweithio gyda phobl i amlygu unrhyw **risg** sy'n gysylltiedig â'u sefyllfa |
| | **P7** | dadansoddi natur, lefel, angenrheidrwydd a goblygiadau unrhyw un o'r **risgiau** a nodir, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill |
| | **P8** | asesu cydbwysedd hawliau a chyfrifoldebau pobl mewn perthynas ag unrhyw risgiau a amlygir |
| | **P9** | llunio barn broffesiynol ynghylch anghenion, **risgiau** a ffactorau amddiffynnol i lywio cynllunio |
| | **P10** | cofnodi gwybodaeth yr asesiad yn gywir ac yn unol â gofynion sefydliadol |

# SCDSW13

Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth yn weithgaredd cymhleth a thrwm sydd â diogelu oedolyn, unigolyn ifanc neu blentyn sy'n agored i niwed wrth wraidd iddo. Mae'n cynnwys cydweithio'n agos â disgyblaethau ac asiantaethau eraill; arfer pendantrwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd lle gall fod gelyniaeth amlwg neu gudd; llunio dyfarniadau anodd; a datblygu dewisiadau gweithredu a all fod â goblygiadau eang. Rhaid gwneud hyn oll yng nghyd-destun gofynion cyfreithiol, sefydliadol a gofynion gorfodol eraill. Mae'r safon hon yn cwmpasu'r agweddau hyn ac yn amlygu'r angen i ganolbwyntio ar yr unigolyn sydd mewn perygl, ni waeth pa anghenion neu ystyriaethau eraill a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses ymchwilio. |

| | | |
|---|---|---|
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | amlygu mathau o ymddygiad ac amgylcheddau sy'n cyflwyno risg bosibl o **niwed neu gamdriniaeth** |
| | **P2** | gweithio o fewn gweithdrefnau sefydliadol ac mewn **partneriaeth ag eraill** i gynllunio ymchwiliad i niwed neu gamdriniaeth a ddrwgdybir |
| | **P3** | cynnal ffocws ar ddiogelu'r unigolyn mewn perygl trwy gydol y broses ymchwilio |
| | **P4** | defnyddio **dyfalwch a phendantrwydd** i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o'r niwed neu'r gamdriniaeth |
| | **P5** | cydlynu tystiolaeth arall o amrywiaeth o ffynonellau a disgyblaethau i asesu lefel y risg |
| | **P6** | llunio barn broffesiynol mewn partneriaeth ag eraill ynghylch lefel a natur yr ymyrraeth ofynnol |
| | **P7** | datblygu dewisiadau ar gyfer cyflawni canlyniadau di-oed a chanlyniadau tymor hwy |
| | **P8** | gwneud argymhellion mewn partneriaeth ag eraill am yr ymyrraeth ofynnol |
| | **P9** | cofnodi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad yn gywir ac yn unol â gofynion sefydliadol a gofynion eraill |

# SCDSW14

Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynllunio mewn gwaith cymdeithasol yn ymwneud â dod o hyd i ffyrdd creadigol i gyflawni canlyniadau yn hytrach na chydweddu pobl â gwasanaethau traddodiadol neu bresennol. Gellir dod o hyd i atebion o fewn y bobl eu hunain neu eu rhwydweithiau personol; trwy gyfuno gwasanaethau mewn ffyrdd newydd neu fwy sefydledig; neu drwy amlinellu sut olwg allai fod ar gymorth sy'n gweddu'n berffaith. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r cylch o weithio ar y cyd i amlygu canlyniadau ac amcanion, archwilio atebion posibl a gwirio eu hymarferoldeb, a chytuno ar gynllun sy'n cynnwys ffyrdd i brofi pa mor dda y mae'r ateb yn gweithio. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | cynorthwyo **pobl** i ddeall y broses gynllunio a'u hawliau a'u cyfrifoldebau o fewn y broses honno |
| | **P2** | gweithio gyda **phobl** i gytuno ar y canlyniad cyffredinol y dylai'r cynllun ei gyflawni |
| | **P3** | dod i gytundeb ynghylch amcanion tymor byr, canolig a hir |
| | **P4** | cynorthwyo pobl i adnabod adnoddau o fewn eu hunain, eu rhwydweithiau personol a'r gymuned |
| | **P5** | archwilio amrywiaeth o **atebion** posibl a'u **hymarferoldeb** gyda'r bobl dan sylw |
| | **P6** | llunio cynllun yn seiliedig ar wybodaeth wedi'i choladu |
| | **P7** | sicrhau bod y rhai sy'n gysylltiedig â'r cynllun neu'n cael eu heffeithio ganddo, yn cytuno ag ef |
| | **P8** | cytuno ar sut caiff y cynllun ei fonitro a'i adolygu |
| | **P9** | cofnodi'r cynllun ac unrhyw ystyriaethau neu anghenion nad yw'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â nhw |

# SCDSW15

Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'r cysylltiad rhwng risg, annibyniaeth a chyfrifoldeb personol yn gwneud rheoli risg mewn gwaith cymdeithasol yn waith dynamig. Mae'n cynnwys cydbwyso hawliau a chyfrifoldebau gwahanol, ac archwilio ffyrdd i alluogi i risgiau gael eu cymryd pan allai'r rhain gyfoethogi bywydau pobl. Mae'r safon yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn wrth gydnabod y gall fod angen diogelwch penodol er hynny. Mae'n rhoi cynlluniau rheoli risg yng nghyd-destun gwaith cydweithredol ac yn amlygu pwysigrwydd cydgytundeb a monitro cynlluniau sy'n gysylltiedig â risg yn barhaus. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | adolygu eich dyletswyddau cyfreithiol a phroffesiynol eich hun a rhai'r sefydliad wrth gynorthwyo pobl i gydbwyso risgiau, hawliau a chyfrifoldebau |
| | **P2** | asesu gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau ynglŷn â risg |
| | **P3** | asesu risg yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol |
| | **P4** | defnyddio pendantrwydd er mwyn sicrhau bod gweithrediadau pobl eraill yn gweithio er budd pennaf yr unigolyn ac yn ystyried y gymuned ehangach |
| | **P5** | gyda'r unigolyn, llunio cynllun i leihau risgiau a gwneud y mwyaf o annibyniaeth a'r cyfrifoldeb dros gymryd risgiau cadarnhaol |
| | **P6** | gweithio gyda'r unigolyn a phobl eraill i sicrhau eu bod yn deall y rhesymau pam y mae angen rhoi dulliau diogelu penodol ar waith |
| | **P7** | sicrhau bod pawb a fydd yn rhannu rheoli risg yn cytuno â'r cynllun |
| | **P8** | cytuno ar strategaeth ar gyfer monitro ac adolygu'r cynllun rheoli risg |
| | **P9** | llunio cofnodion o'r cynllun rheoli risg |

# SCDSW16

Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth wedi'i hymchwilio a'i chadarnhau, rhaid cytuno ar gynlluniau i fynd i'r afael â'r risg ar frys o fewn fframwaith amlasiantaeth. Er bod rhaid i'r ffocws cychwynnol fod ar sicrhau diogelwch tymor byr, rhaid mynd i'r afael ag amcanion therapiwtig hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys amlygu'r cynllun gweithredu lleiaf niweidiol yn y tymor byr a chynllunio dulliau adferol, lle bo hynny'n bosibl, yn y tymor hwy. Mae'r safon hon yn cwmpasu'r meysydd hyn yng nghyd-destun gwaith amlddisgyblaethol cydweithredol. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | dadansoddi, o ganlyniad **ymchwiliad**, gradd y risg i unigolyn, i'w r(h)wydwaith uniongyrchol neu estynedig, neu i'r gymuned |
| | **P2** | cydweithio â'r unigolyn, y rhai sy'n agos ato/ati, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau eraill i lunio cynllun a fydd yn amddiffyn yr unigolyn, y rhai yn ei r(h)wydweithiau a'r gymuned |
| | **P3** | cynorthwyo'r unigolyn i gyfrannu cymaint â phosibl at y broses gynllunio |
| | **P4** | trafod cytundeb ar y cynllun gweithredu lleiaf rhwystrol a lleiaf niweidiol a fydd yn cynnig diogelwch tymor byr o ran y risgiau a amlygwyd |
| | **P5** | datblygu cynllun therapiwtig tymor hir i adfer neu barhau i ddarparu diogelwch |
| | **P6** | adolygu cynlluniau gydag eraill ar adegau cytûn |
| | **P7** | gwneud newidiadau i'r cynllun mewn ymateb i daflwybr yr ymyriad mewn ymgynghoriad ag eraill |
| | **P8** | llunio cofnodion ac adroddiadau proffesiynol i ddogfennu cynlluniau, cynnydd, newidiadau i gynlluniau, a chanlyniadau |

# SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

<table>
<tr><td>Trosolwg</td><td colspan="2">Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwybodaeth gadarn am ystod o ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, ynghyd â'r modd y mae gweithiwr cymdeithasol yn eu cymhwyso, yn adnoddau allweddol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Gall ffocws yr ymyrraeth fod yn grŵp, unigolyn neu'n system y mae unigolyn yn gweithredu oddi mewn iddi. Mae'r safon hon yn cydnabod y bydd angen dewis ymyriadau gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol ac esbonio'r dewis hwnnw, yn ôl yr angen. Mae'r safon hefyd yn pwysleisio'r angen i fyfyrio'n ofalus ar effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth a ddefnyddir, ynghyd â pharodrwydd i ddysgu ac addasu ymarfer i helpu i sicrhau newid wrth i'r ymyrraeth symud yn ei blaen.</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td rowspan="6">Meini prawf perfformiad<br><br>Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:</td><td>P1</td><td>ymchwilio i amrywiaeth o ddulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol a all hybu newid mewn sefyllfaoedd penodol</td></tr>
<tr><td>P2</td><td>dadansoddi sut gall eich sgiliau proffesiynol a rhyngbersonol eich hun gael eu harddangos o fewn dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>P3</td><td>mynegi eich rhesymwaith dros ddewis ymyriadau penodol mewn sefyllfaoedd penodol</td></tr>
<tr><td>P4</td><td>defnyddio eich sgiliau proffesiynol a rhyngbersonol eich hun i gymhwyso ymyriadau gwaith cymdeithasol</td></tr>
<tr><td>P5</td><td>monitro trwy fyfyrio mewn ymarfer ar effeithiolrwydd yr ymyriadau o ran sicrhau newid</td></tr>
<tr><td>P6</td><td>adolygu ymyriadau i ystyried monitro myfyriol</td></tr>
</table>

# SCDSW18

Cael mynediad at adnoddau i gynorthwyo canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Yn aml, mae rôl gweithwyr cymdeithasol o ran cael mynediad at adnoddau yn llawn cyfyngiadau o ran cymhwyster, cyllid, argaeledd ac addasrwydd. Mae datrys problemau'n greadigol a meddwl yn arloesol yn sgiliau hanfodol, nid yn unig i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau prin, ond hefyd i sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau eraill wir yn gweddu'r bobl y cânt eu sicrhau ar eu cyfer ac yn galluogi canlyniadau i gael eu cyflawni. Mae'r safon hon yn adlewyrchu'r ystyriaethau hyn ac yn cydnabod y rolau gwahanol y gall fod angen i weithwyr cymdeithasol eu chwarae wrth gael mynediad at adnoddau. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | cadarnhau gyda'r **bobl** dan sylw y canlyniadau y mae gofyn i'r adnoddau eu cyflawni |
| | **P2** | cyflawni **gweithrediadau** sydd eu hangen i sicrhau adnoddau y cytunwyd arnynt |
| | **P3** | sicrhau bod pobl yn cael gwybod am gynnydd o ran sicrhau adnoddau |
| | **P4** | cynorthwyo pobl i ymdopi ag unrhyw newyddion annisgwyl neu annymunol a all godi wrth sicrhau adnoddau |
| | **P5** | cytuno ar ffordd i fonitro ac adolygu'r defnydd o adnoddau, i fodloni anghenion y bobl dan sylw a'r sefydliad |
| | **P6** | darparu gwybodaeth fonitro am adnoddau i fodloni gofynion sefydliadol a llywio cynllunio gwasanaeth, comisiynu strategaethau a meithrin gallu |
| | **P7** | gwerthuso effeithiolrwydd adnoddau o ran cyflawni canlyniadau ar gyfer pobl dros amser |

# SCDSW19

Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'n hawdd esgeuluso gwerthuso pan fydd gorchmynion newydd yn cael eu cyflwyno o hyd, ond mae'n gam hanfodol o ran gwella ymarfer gwaith cymdeithasol a phrofiad pobl ohono yn barhaus. Rhaid i brif ffocws gwerthuso fod ar bobl eu hunain a pha mor dda y maent wedi elwa ar ymyriadau, rheoli risg ac adnoddau. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r broses werthuso, gan gynnwys myfyrio personol ac adolygu gwrthrychol gan ddefnyddio safbwyntiau a mesurau gwahanol, gan gynnwys agweddau sefydliadol. Mae'n cydnabod bod rhaid i'r hyn sy'n cael ei ddysgu lywio ymarfer yn y dyfodol ac y gall ddylanwadu ar y proffesiwn ehangach hefyd. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | adolygu canlyniadau bwriadedig ymarfer gwaith cymdeithasol mewn sefyllfaoedd penodol |
| | **P2** | dadansoddi gwybodaeth o amrywiaeth o safbwyntiau am gynnydd tuag at ganlyniadau |
| | **P3** | mewn partneriaeth ag eraill, gwerthuso canlyniadau ar gyfer unigolion, eu teuluoedd neu gymunedau |
| | **P4** | dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer eich sefydliad eich hun |
| | **P5** | myfyrio ar eich rôl eich hun a'r defnydd ohonoch chi eich hun mewn ymyriadau gwaith cymdeithasol penodol |
| | **P6** | mewn partneriaeth ag eraill, adolygu cynlluniau ar gyfer ymarfer ac ymyriadau i ystyried gwerthusiadau |
| | **P7** | amlygu gwersi a ddysgwyd a ddylai lywio eich ymarfer yn y dyfodol a gwaith eich sefydliad |
| | **P8** | mynegi sut gall eich gwerthusiadau chi gyfrannu at ddatblygu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn |

# SCDSW20

Ymddieithrio ar ddiwedd ymglymiad â gwaith cymdeithasol

| | | |
|---|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Gall ymgysylltiad gwaith cymdeithasol â phobl benodol ddod i ben oherwydd newid i'w hamgylchiadau neu oherwydd newid gweithiwr cymdeithasol. Mae ymddieithrio tringar yn dangos parch tuag at y bobl dan sylw ac mae gwybodaeth eglur yn darparu sicrwydd. Mae'r safon hon yn adlewyrchu'r pryderon hyn ynghyd â phrosesau ymarferol ymddieithrio. | |
| | | |
| **Meini prawf perfformiad**<br><br>**Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:** | **P1** | cytuno ar gynllun ar gyfer **ymddieithrio** pan fydd diwedd eich ymglymiad yn agosáu |
| | **P2** | esbonio i **bobl** y rhesymau dros eich ymddieithriad sydd ar ddod |
| | **P3** | rhoi gwybodaeth i **bobl** ar ddiwedd neu ddilyniant cymorth ar eu cyfer |
| | **P4** | trefnu i drosglwyddo neu derfynu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| | **P5** | cwblhau'r dogfennau gofynnol i ddod â'ch ymglymiad i ben |

# Y safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol 2011

## Y Compendiwm Gwybodaeth a Dealltwriaeth yn Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol 2011

### Cyflwyniad

Er bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (y Safonau) bob un yn mynd i'r afael â swyddogaeth ar wahân o fewn ymarfer gwaith cymdeithasol, mae'r datganiadau gwybodaeth a dealltwriaeth ynddynt yn eu natur yn drawsbynciol. Mae'r datganiadau hyn yn cynrychioli'r corff helaeth o wybodaeth sydd wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol yn ei gyfanrwydd. Felly, mae'n anochel bod llawer o eitemau'n cael eu hailadrodd ar draws y Safonau eu hunain.

I egluro'r berthynas rhwng yr holl ddatganiadau gwybodaeth a dealltwriaeth, defnyddiwyd y dyfeisiau canlynol:

- Mae'r ddogfen hon yn casglu ynghyd yr holl ddatganiadau gwybodaeth a dealltwriaeth a ddefnyddir rywle yn y Safonau ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, gan eu grwpio fesul pennawd er hwylustod cyfeirio

- Ym mhob Safon, mae'r datganiadau'n digwydd yn yr un drefn gyffredinol ag yn y ddogfen hon.

## Y Compendiwm Gwybodaeth a Dealltwriaeth

### Polisi a deddfwriaeth

1. Deddfwriaeth ryngwladol, a'i pherthynas â pholisïau ac arferion gwaith cymdeithasol y Deyrnas Unedig

2. Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, a'i pherthynas â pholisïau ac arferion gwaith cymdeithasol cenedlaethol

3. Deddfwriaeth genedlaethol, a'i pherthynas â pholisïau ac arferion gwaith cymdeithasol (cwmpas: gofal cymdeithasol, diogelu, adsefydlu/ailintegreiddio i'r gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hyrwyddo annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau)

4. Codau, safonau, fframweithiau a chanllawiau statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol

### Damcaniaethau

6. Damcaniaethau sy'n sail i'n dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno

7. Damcaniaethau sy'n sail i'n dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol

8. Damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes

9. Trafod yn feirniadol, ar sail damcaniaeth ac ymchwil, y perthnasoedd rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer gwaith cymdeithasol

## Ymarfer gwaith cymdeithasol

10. Gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes

11. Natur, rôl a mandad y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol

12. Egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau ymyrraeth ac ymarfer gwaith cymdeithasol

13. Ffactorau sy'n gysylltiedig yn gyffredin ag ymwneud gan waith cymdeithasol (cwmpas: camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a lloches; tlodi; oedolion neu blant sydd mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau'n ymwneud ag addysg; statws ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; amddiffyn y cyhoedd)

14. Tueddiadau demograffig a chymdeithasol

15. Eich cefndir, eich profiadau a'ch arferion eich hun a all gael effaith ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol

16. Egwyddorion asesu risg a rheoli risg

17. Egwyddorion cymryd risgiau cadarnhaol

18. Technegau ar gyfer datrys problemau a meddwl yn arloesol

19. Egwyddorion rheoli gwrthdaro

20. Natur gwrthdaro a'r effaith ar gymdeithas ar ôl y gwrthdaro

## Prosesau a gweithdrefnau

21. Gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac arferion proffesiynol

22. Offer a fframweithiau asesu a chynllunio

23. Gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill

## Gweithio amlddisgyblaeth

24. Pwrpas gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill

25. Cylch gwaith, swyddogaethau, ethos a chyfrifoldebau disgyblaethau a sefydliadau sy'n ymwneud â gwaith amlddisgyblaethol

## Gweithio mewn partneriaeth

26. Cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned

27. Egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

28. Systemau, prosesau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a sefydliadau eraill, y gall unigolion, teuluoedd, grwpiau neu gymunedau gymryd rhan ynddynt

29. Yr amrywiaeth o gymorth y gall fod ei angen i hyrwyddo cyfranogiad

## Diogelu

30. Gweithdrefnau sefydliadol ac amlddisgyblaethol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth

31. Mathau o niwed neu gamdriniaeth

32. Dangosyddion niwed neu gamdriniaeth bosibl

33. Nodweddion cyffredin ymddygiad drwgweithredwyr

34. Dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd

35. Pwerau a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu harfer er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau

## Personoli ac adnoddau

36. Potensial unigolion i ddefnyddio'u cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid

37. Gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd o ddatblygu'r rhain

38. Natur personoli a gwasanaethau wedi'u personoli, gan gynnwys cymorth hunangyfeiriedig; a rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn perthynas â'r rhain yng nghyd-destun polisi cenedlaethol

39. Yr amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael mewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, drwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol a thrwy arloesi

## Comisiynu ac ariannu

40. Y meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau neu ffrydiau cyllido

41. Y cyfleoedd y mae dulliau cyllido gwahanol yn eu cynnig, gan gynnwys cyllidebau unigol a thaliadau uniongyrchol

42. Y cylch comisiynu ar gyfer darpariaeth, gan gynnwys cyfleoedd i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gomisiynu'r gwasanaethau hynny

43. Y rôl frocera wrth sicrhau gwasanaethau

## Delio â gwybodaeth

44. Sut i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir ac yn eglur, gyda pherthnasedd a lefel briodol o fanylion

45. Gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a pharatoi adroddiadau

46. Gofynion cyfreithiol, polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth

## Ymarfer myfyriol

47. Egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl yn feirniadol a dysgu

48. Prosesau a gofynion ar gyfer goruchwyliaeth ffurfiol yn eich sefydliad eich hun

49. Sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer

50. Ffynonellau adborth a all lywio myfyrdod ar ymarfer a meddwl yn feirniadol

# Atodiad 2

# Datganiad Meincnodi Pwnc: Gwaith Cymdeithasol 2016

Mae Datganiadau Meincnodi Pwnc yn rhan o God Ansawdd y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Uwch (y Cod Ansawdd) sy'n amlinellu'r disgwyliadau y mae'n ofynnol i holl ddarparwyr addysg uwch y DU, a adolygir gan y QAA, eu cyflawni. Maent yn elfen o *Ran A: Gosod a Chynnal Safonau Academaidd*, sy'n cynnwys y disgwyliad bod darparwyr addysg uwch yn 'ystyried ac yn cyfrif am Ddatganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol' er mwyn sicrhau safonau trothwy academaidd.

Sgiliau penodol i bwnc a sgiliau eraill
Mae ystod y sgiliau sy'n ofynnol gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig yn adlewyrchu'r cyd-destun cymhleth a beichus y mae'n gweithio ynddo. Gall llawer o'r sgiliau hyn fod o werth mewn llawer o sefyllfaoedd, er enghraifft, meddwl yn ddadansoddol, meithrin perthnasoedd, gweithio'n aelod o sefydliad, ymyrryd, gwerthuso a myfyrio. Yr hyn sy'n diffinio natur benodol y sgiliau hyn fel y'u datblygir gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol yw:

- y cyd-destun y mae'r sgiliau'n cael eu cymhwyso a'u hasesu ynddo (er enghraifft sgiliau cyfathrebu ar waith gyda phobl â namau ar y synhwyrau neu sgiliau asesu mewn lleoliad rhyngbroffesiynol)

- y pwys cymharol a roddir i sgiliau o'r fath mewn ymarfer gwaith cymdeithasol (er enghraifft, pwysigrwydd canolog sgiliau datrys problemau o fewn sefyllfaoedd dynol cymhleth)

- pwrpas penodol datblygu sgiliau (er enghraifft, ennill sgiliau ymchwil er mwyn llunio repertoire o ymarfer seiliedig ar ymchwil)

- gofyniad i integreiddio amrywiaeth o sgiliau (hynny yw, nid dim ond dangos y rhain yn unigol a fesul tipyn)

Mae pawb sy'n graddio mewn gwaith cymdeithasol yn dangos y gallu i fyfyrio ar arfer eu sgiliau a dysgu o hynny, er mwyn meithrin eu hunaniaeth broffesiynol. Maent yn deall arwyddocâd cysyniadau datblygiad proffesiynol parhaus a dysgu gydol oes, ac yn erbyn cyfrifoldeb am eu datblygiad parhaus eu hunain.

Mae myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn ennill ac yn integreiddio sgiliau yn y pum maes craidd canlynol:

## Sgiliau datrys problemau

Mae'r rhain yn cael eu rhannu'n bedwar maes pellach.

**a.** Rheoli gweithgareddau datrys problemau: mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu:

- meddwl yn rhesymegol, yn systematig, yn greadigol, yn feirniadol ac yn fyfyriol, er mwyn cynnal asesiad cyfannol

- cymhwyso egwyddorion ac arferion moesegol yn feirniadol wrth gynllunio gweithgareddau datrys problemau

- cynllunio dilyniant o gamau gweithredu i gyflawni amcanion penodedig, gan wneud defnydd o ymchwil, damcaniaethau a mathau eraill o dystiolaeth

- rheoli prosesau newid, gan ddefnyddio ymchwil, theori a mathau eraill o dystiolaeth.

**b.** Casglu gwybodaeth: mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu:

- dangos dyfalbarhad wrth gasglu gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau a defnyddio amrywiaeth o ddulliau at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys chwiliadau electronig, adolygiadau o lenyddiaeth, polisi a gweithdrefnau perthnasol, cyfweliadau wyneb yn wyneb, a chysylltiad dros y ffôn ac yn ysgrifenedig ag unigolion a grwpiau

- cyfrif am y safbwyntiau gwahanol wrth gasglu gwybodaeth ac asesu dibynadwyedd a pherthnasedd y wybodaeth a gesglir yn feirniadol

- cymathu a lledaenu gwybodaeth berthnasol mewn adroddiadau a chofnodion achos.

**c.** Dadansoddi a chyfuno: mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu dadansoddi a chyfuno gwybodaeth a gesglir at ddibenion datrys problemau, er mwyn:

- asesu sefyllfaoedd dynol, gan gyfrif am amrywiaeth o ffactorau (gan gynnwys barn cyfranogwyr, cysyniadau damcaniaethol, tystiolaeth ymchwil, deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol)
- dadansoddi a chyfuno gwybodaeth a gesglir, gan bwyso a mesur tystiolaeth sy'n anghyson, ac addasu'u safbwynt yn sgil gwybodaeth newydd, yna cysylltu'r wybodaeth hon â thasg, sefyllfa neu broblem benodol
- cydbwyso ffactorau penodol sy'n berthnasol i ymarfer Gwaith Cymdeithasol, (fel risg, hawliau, gwahaniaethau diwylliannol ac anghenion a dewisiadau iaith, cyfrifoldebau i amddiffyn unigolion agored i niwed, a rhwymedigaethau cyfreithiol)
- asesu rhinweddau damcaniaethau cyferbyniol, esboniadau, ymchwil, polisïau a gweithdrefnau, a defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu a chefnogi dadleuon rhesymegol
- defnyddio dealltwriaeth feirniadol o ffactorau sy'n cynorthwyo â datrys problemau, neu'n amharu ar hynny, gan gynnwys materion cymdeithasol, sefydliadol a chymunedol, yn ogystal â pherthnasoedd unigol
- dadansoddi'n feirniadol a chyfrif am effaith anghydraddoldeb a gwahaniaethu wrth weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau Gwaith Cymdeithasol.

**d.** Ymyrryd a gwerthuso: mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu defnyddio'u gwybodaeth am amrywiaeth o ymyriadau a phrosesau gwerthuso yn greadigol ac yn ddethol i:

- adeiladu a chynnal perthnasoedd pwrpasol gyda phobl a sefydliadau mewn cymunedau a chyd-destunau rhyngbroffesiynol
- gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, gosod nodau a llunio cynlluniau penodol i gyflawni canlyniadau, gan ystyried gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys canllawiau moesegol
- trafod nodau a chynlluniau gydag eraill, gan ddadansoddi a mynd i'r afael â rhwystrau unigol, diwylliannol a strwythurol rhag newid, mewn ffordd greadigol a hyblyg
- rhoi cynlluniau ar waith trwy amrywiaeth o brosesau systematig sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth
- ymarfer mewn ffordd sy'n hyrwyddo llesiant, yn amddiffyn diogelwch ac yn datrys gwrthdaro
- bod yn llywiwr, yn eiriolwr ac yn gefnogwr i gynorthwyo pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt i wneud penderfyniadau a chael at wasanaethau
- rheoli dynameg gymhleth dibyniaeth ac, mewn rhai lleoliadau, rhoi gofal uniongyrchol a chymorth personol i gynorthwyo pobl yn eu bywyd bob dydd
- bodloni terfynau amser a chydymffurfio â gofynion allanol tasg
- cynllunio a gweithredu prosesau a chanlyniadau, a'u monitro a'u hadolygu'n feirniadol
- dod â gwaith i derfyn effeithiol, gan gyfrif am y goblygiadau i bawb sydd ynghlwm
- defnyddio a gwerthuso dulliau ymyrryd yn feirniadol ac yn fyfyriol.

## Sgiliau cyfathrebu

Mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu cyfathrebu'n glir, yn sensitif ac yn effeithiol (gan ddefnyddio dulliau priodol a allai gynnwys gweithio gyda chyfieithwyr) gydag unigolion a grwpiau o oedrannau a galluoedd gwahanol, mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, er mwyn:

- ennyn diddordeb unigolion a sefydliadau, a all fod yn amharod i wneud, ar lafar, ar bapur ac yn electronig, i gyflawni amrywiaeth o amcanion, gan gynnwys newid eu hymddygiad
- defnyddio ciwiau llafar a dieiriau i lywio a hysbysu sgyrsiau a dehongli gwybodaeth
- trafod a, lle bo'r angen, ailddiffinio pwrpas rhyngweithiadau ag unigolion a sefydliadau, a ffiniau eu hymwneud
- gwrando'n weithgar ac yn empathig ar eraill, gan ystyried eu hanghenion a'u profiadau bywyd penodol
- ymwneud yn briodol â phrofiadau bywyd defnyddwyr gwasanaethau, i ddeall eu safbwyntiau'n gywir, goresgyn rhagfarnau personol ac ymateb yn briodol i amrywiaeth o sefyllfaoedd personol a rhyngbersonol cymhleth
- llunio dadleuon ar sail tystiolaeth, gan fanteisio ar ddamcaniaethau, ymchwil ac ymarfer
- doethineb, gan gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau a/neu eraill
- ysgrifennu'n gywir ac yn eglur, mewn arddulliau sydd wedi'u haddasu yn ôl cynulleidfa, pwrpas a chyd-destun yr ohebiaeth
- defnyddio sgiliau eirioli i hyrwyddo hawliau, buddiannau ac anghenion pobl eraill
- cyflwyno casgliadau ar lafar ac ar bapur, mewn ffordd strwythuredig, yn briodol i'r gynulleidfa y paratowyd y casgliadau ar eu cyfer
- paratoi'n effeithiol ar gyfer cyfarfodydd a'u harwain mewn ffordd gynhyrchiol.

## Sgiliau gweithio gydag eraill

Mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu meithrin perthnasoedd a gweithio'n effeithiol gydag eraill, er mwyn:

- cynnwys defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n cynyddu'u hadnoddau, eu gallu a'u pŵer i ddylanwadu ar ffactorau sy'n effeithio ar eu bywydau
- ennyn diddordeb defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr a rhwydweithiau cymunedol ehangach mewn ymgynghori gweithgar
- parchu a rheoli gwahaniaethau, fel ffiniau sefydliadol a phroffesiynol, a gwahaniaethau o ran hunaniaeth a/neu iaith
- datblygu perthnasoedd a phartneriaethau cynorthwyol, effeithiol, sy'n hwyluso newid i unigolion, grwpiau a sefydliadau, ond yn cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol ar yr un pryd
- dangos sgiliau rhyngbersonol a deallusrwydd emosiynol sy'n creu ac yn datblygu perthnasoedd ar sail didwylledd, tryloywder ac empathi
- cynyddu cyfiawnder cymdeithasol trwy nodi ac ymateb i ragfarn, gwahaniaethu sefydliadol ac anghydraddoldeb strwythurol
- gweithredu o fewn fframwaith atebolrwydd lluosog (er enghraifft, i asiantaethau, i'r cyhoedd, i ddefnyddwyr gwasanaethau, i ofalwyr ac i eraill)
- cadw at derfynau cyfrifoldebau proffesiynol a sefydliadol, gan ddefnyddio goruchwyliaeth yn briodol a chyfeirio at eraill pan fydd angen
- cynnig dadleuon rhesymegol, gwybodus i herio eraill fel bo'r angen, mewn ffyrdd sy'n fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

## Sgiliau datblygiad personol a phroffesiynol

Mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu:

- gweithio ar bob adeg yn unol â chodau ymddygiad proffesiynol a moeseg
- datblygu'u dysgu a'u dealltwriaeth eu hunain gyda rhywfaint o annibyniaeth a defnyddio goruchwylio i gynorthwyo â datblygiad proffesiynol
- datblygu'u hunaniaeth broffesiynol, adnabod eu cyfyngiadau a'u hatebolrwydd proffesiynol eu hunain, a gwybod sut a phryd i geisio cyngor o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys goruchwyliaeth broffesiynol
- defnyddio rhwydweithiau cymorth a goruchwyliaeth broffesiynol i ymdopi ag ansicrwydd, newid a straen mewn sefyllfaoedd gwaith, gan gynnal ei wydnwch ei hun a gwydnwch pobl eraill
- ymdrin â gwrthdaro rhwng pobl eraill ac yn fewnol pan all safbwyntiau personol wrthdaro â ffordd o weithredu sy'n ofynnol yn ôl y rôl Gwaith Cymdeithasol
- cynnig dadleuon rhesymegol, gwybodus i herio arferion annerbyniol mewn ffordd gyfrifol a chodi pryderon am gamwedd yn y gweithle
- bod yn agored ac yn onest gyda phobl os aiff pethau o le
- deall y gwahaniaeth rhwng theori, ymchwil, tystiolaeth ac arbenigedd, a rôl crebwyll proffesiynol.

## Defnyddio technoleg a sgiliau rhifiadol

Mae graddedigion gwaith cymdeithasol yn gallu defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol ac yn briodol ar gyfer:

- cyfathrebu proffesiynol, storio ac adalw data, a chwilio am wybodaeth
- cael at wybodaeth a'i chymathu i lywio gwaith gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- dadansoddi data i alluogi'r defnydd effeithiol o ymchwil mewn ymarfer
- gwella sgiliau datrys problemau
- cymhwyso sgiliau rhifiadol i gyfrifoldebau ariannol a chyllidebol
- deall effaith gymdeithasol technoleg, gan gynnwys cyfyngiadau cyfrinachedd ac ymwybyddiaeth o effaith y 'gagendor digidol'.

# Atodiad 3

# Adnodd archwilio sgiliau[8]

Dyma adnodd defnyddiol i addysgwyr ymarfer ei ddefnyddio gyda myfyrwyr i adolygu datblygiad sgiliau personol a phroffesiynol sy'n hanfodol ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol. Awgrymir ei ddefnyddio i amlygu cryfderau, yn ogystal â meysydd i'w datblygu.

Hefyd, gall yr adnodd hwn gael ei ddefnyddio i lywio'r adroddiad asesu terfynol a gwblheir gan yr addysgwr ymarfer ac i amlygu anghenion dysgu yn y dyfodol.

| **Gwerthoedd a sgiliau personol** |
| --- |
| • Arddangos dealltwriaeth a pharch i amrywiaeth diwylliannol, gwahaniaeth, arferion a defodau |
| • Ymwybyddiaeth o'i (g)werthoedd a'i r(h)agdybiaethau a pharodrwydd i drafod eu heffaith ar ymarfer |
| •Adnabod ei ch/gryfderau a'i ch/gyfyngiadau ei hun |
| • Dangos agwedd gadarnhaol, hunan-hyder a hunan-ysgogiad |
| • Arddangos empathi a deallusrwydd emosiynol |
| • Arddangos doethineb, pwyll a thringarwch |
| • Arddangos gonestrwydd a chywirdeb |

| **Sgiliau cyfathrebu, rhyngbersonal a rhwydweithio** |
| --- |
| • Gallu i gyfathrebu a rhyngweithio gyda phobl o wahanol oedran, statws, anghenion, gender a.y.y.b. sy'n cynnwys sgiliau ffôn effeithiol |
| • Hunan-ymwybyddiaeth a chynnal ffiniau proffesiynol |
| • Agwedd gyffredinol at y gwaith, cydweithwyr, asiantaeth ac unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau |
| • Arddangos sgiliau cymdeithasol a chydweithio addas yn y gweithle |
| • Cydweithio fel aelod cadarnaol o dîm |
| • Sgiliau gwrando |
| • Sgiliau cyfweld |
| • Sgiliau grymuso a galluogi |
| • Rheoli gwrthdaro mewn dull tawedog a phroffesiynol |
| • Casglu gwybodaeth briodol |

8. Rhannwyd yr adnodd archwilio hwn gan raglen yr MA mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Rydym yn ddiolchgar i'r rhaglen am ganiatáu i ni ddefnyddio'r deunydd hwn.

| Sgiliau proffesiynol y gweithle |
| --- |
| • Prydlondeb, cadw amser a chyfarfod amserlen |
| • Sgiliau trefniadol a'r gallu i flaenoriaethu llwyth Gwaith |
| • Meddu ar ddelwedd broffesiynol |
| • Cymeryd balchder yn ei (g)waith |
| • Sgiliau asesu |
| • Sgiliau dadansoddi |
| • Sgiliau pendantrwydd |
| • Sgiliau adlewyrchu |
| • Sgiliau ymchwilio |
| • Datrys problemau |
| • Gallu i lunio barn a gwneud penderfyniadau |
| • Cofnodi a chyfnewid gwybodaeth yn glir a chywir |
| • Cwblhau gwaith sy'n daclus, cywir ac o ddiwyg proffesiynol, gan ddefnyddio'r fformat cywir |
| • Paratoi adroddiadau a dogfennau sy'n glir, gywir a chryno, sy'n gywir o ran gramadeg, sillafu a chystrawen |
| • Gweithredu o fewn ei awdurdod, gan lynu at bolisïau a gweithdrefnau'r asiantaeth |
| • Ymateb i arweiniad a chyfarwyddyd a gweithredu ar gyngor ac adborth |
| • Mynegi syniadau a barn yn gryno |
| • Dilyn tasgau i'w cwblhau |

| Sgiliau adlewyrchu a gwella ymarfer |
|---|
| • Cymryd cyfrifoldeb am (d)dysgu ei hun |
| • Derbyn cyfrifoldeb am ei ph/benderfyniadau a gweithredoedd ei hun |
| • Ceisio ffyrdd i wella'i hunan a'i ph/berfformiad a dysgu o gamgymeriadau |
| • Gofyn am eglurhad, cynnig syniadau, gwybodaeth a barn addas a pherthnasol |
| • Defnydd effeithiol o oruchwyliaeth |
| • Hyblygrwydd a pharodrwydd i dderbyn syniadau Newydd |
| • Gallu ymateb i sefyllfaoedd annisgwyl ac addasu i newid |

| Sgiliau TG |
|---|
| • Sgiliau cyfrifiadurol |
| • Defnyddio e-bost i gyfathrebu yn effeithiol |
| • Defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol e.e. Word, PowerPoint, i gwblhau tasgau |
| • Defnyddio'r Wê i gwblhau tasgau yn effeithiol |